Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

03/08/2017

**Cyngor gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru: Conwy a Sir Ddinbych**

Annwyl Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, a'i swyddogion cefnogi,

Diolch i chi am ofyn am fy nghyngor ynghylch sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft ar bwnc llesiant. Deallaf eich bod chi bron â chyrraedd pwynt adnabod amcanion drafft a chamau o ran themâu cyffredin, a gweithredoedd arfaethedig sydd wedi amlygu'u hunain yn eich asesiad llesiant a'r gweithdai olynol. Yn hynny o beth, ni allaf eich cynghori ar y camau y gallech chi eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion drafft, ond gallaf roi cyngor cyffredinol i chi ar y camau y gallech chi eu ceisio er mwyn gwella llesiant ym meysydd y themâu cyffredinol yr ydych wedi'u darparu ar gyfer fy nhîm, sef:

1. Parhau â'r flaenoriaeth interim o sicrhau fod 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn yn ddiogel ac iach gyda'r cyfle i ddatblygu i'w lawn botensial.
2. Y potensial i ddatblygu canolfannau cymuned, i feithrin mwy o weithgaredd cymunedol lleol drwy ddod â phreswylwyr a sefydliadau / gwasanaethau allweddol ynghyd i wella ansawdd bywyd a chreu cymunedau mwy gwydn (Dolen i 1 a 6).
3. Datblygu ymhellach yr arfer o roi presgripsiwn gwyrdd/cymdeithasol ledled Conwy a Sir Ddinbych sy'n cefnogi ystod eang o anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymarferol er mwyn galluogi pobl o bob oedran i ffynnu.
4. Gweld iechyd meddwl a llesiant da ymysg pobl o bob oedran.
5. Paratoi a chynnal annibyniaeth a llesiant pobl hŷn.
6. Yr angen i gydweithio ochr yn ochr â chymunedau unigol ar raddfa leol er mwyn datblygu 'cynlluniau cymunedol' a fyddai'n cynnwys elfennau o addasrwydd yn wyneb newid hinsawdd (gwell cynllunio i adeiladau), isadeiledd gwyrdd ar gyfer hamdden awyr agored, cynaliadwyedd a materion cymdeithasol eraill; Dolen i argymhellion 2 a 10.
7. Y potensial i ddatblygu ymhellach a hybu defnydd o atebion 'naturiol' ar gyfer rheoli dŵr a materion amgylcheddol cysylltiedig e.e. rheoli perygl llifogydd yn naturiol.
8. Y syniad o ddatblygu 'safon amgylcheddol' wedi'i deilwra ar draws holl aelodau'r PSB, a'i hybu ymysg sefydliadau eraill sy'n gweithio oddi mewn i Gonwy a Sir Ddinbych.
9. Y potensial i archwilio dulliau gwahanol o newid ymddygiad er mwyn cefnogi ein dinasyddion i wneud newidiadau a dewisiadau cadarnhaol i'w dull o fyw er mwyn dod yn fwy gwydn.
10. Datblygu ymhellach gynllunio cymunedol yn nhelerau democratiaeth er mwyn sicrhau fod eich cymunedau'n gynaliadwy, yn wydn ac yn ymrwymo (Dolen i 2 a 6).

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

11. Yr angen i wella mynediad i ddewisiadau trafnidiaeth effeithiol a fforddiadwy (Dolen i argymhelliad 12).

12. Hybu Conwy a Sir Ddinbych fel lle i fyw, gweithio a mwynhau. (Dolen i argymhelliad 11).

13. Peri bod ein pobl ifanc yn meddu ar lythrennedd ddyheadol ac emosiynol.

Mae fy nhîm wedi canfod fod siarad yn rheolaidd â chi a mynychu un o'ch gweithdai wedi rhoi dealltwriaeth iddynt o'r modd yr ydych chi'n cydweithio fel Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC); y dull rydych chi wedi'i gymryd wrth drin cynllunio llesiant a'ch bwriad i gyflawni'r amcanion a chymryd camau mewn cyfeiriad gwahanol. Fel y byddan nhw wedi trafod gyda chi, roeddwn i'n awyddus i weld fod fy nghyngor i chi'n mynd i fod yn ddefnyddiol i chi a'r cyd-destun yr ydych chi'n gweithio ynddo, felly gobeithio eich bod chi hefyd wedi cael y pwyntiau cyswllt rheolaidd hyn o fudd i chi a'u bod wedi rhoi rhyw gymaint o ganllaw i chi ar hyd y daith.

Roeddwn hefyd am i fy ymateb i'ch asesiad llesiant i fod yn 'ymlaen-borth' yn hytrach nag 'adborth', gan eich helpu i ystyried sut i ymdrin ag asesiad parhaus a chynllunio llesiant i'r dyfodol. Rwyf wedi cyhoeddi'n ddiweddar 'Llesiant yng Nghymru: Cynllunio heddiw am well yfory', sy'n tynnu sylw at ganfyddiadau ac argymhellion allweddol ar gyfer PSBau mewn meysydd allweddol ble mae angen gwneud newidiadau i wneud gwell penderfyniadau ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Rwy'n cyfeirio at y rhain wrth i mi ddarparu cyngor i chi.

Fel y gwyddoch, wrth osod amcanion drafft a chymryd camau i'w cyflawni, rhaid i unrhyw PSB wneud yn fawr o'u cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol a defnyddio'r pum dull o weithio i'w helpu i wneud hyn. Bwriad fy nghyngor i chi yw eich helpu i ystyried sut y gallech wneud hyn yn effeithiol a sut y gallech ddangos, drwy gyfrwng eich cynllun llesiant, eich bod wedi defnyddio'r pum dull o weithio i roi ffurf ar eich camau.

Felly, mae fy nghyngor i chi'n ymwneud â mabwysiadu dulliau gwahanol o weithio, ac yn benodol felly ar y pynciau yr ydych chi wedi'u hadnabod o'ch asesiad sydd angen canolbwyntio arnynt, ynghyd â cheisio cysylltu chi ag eraill a allai eich helpu. Fel yr esboniodd fy nhîm, nid pwrpas y cyngor hwn yw rhoi fy marn i chi ar eich amcanion llesiant. Mae'r rhain yn cael eu pennu a'u perchnogi gennych chi, fel PSB ar y cyd.

**Cyngor ynghylch sut y gallech gymryd camau i gwrdd â'ch amcanion drafft:**

Wrth osod eich amcanion a'ch camau am y dull o'u cyflawni, hoffwn ddeall beth mae hynny'n ei olygu i chi yng Nghonwy a Sir Ddinbych a pha dystiolaeth leol neu genedlaethol rydych chi wedi pwyso arno i weithredu felly. Mae cyflawni uchelgeisiau'r Ddeddf yn ymwneud â'r 'beth' a'r 'sut' h.y. beth ydych chi'n ei wneud i gyfrannu at ein gweledigaeth gyfun o'r saith nod llesiant cenedlaethol? Sut ydych chi'n gweithredu'r egwyddor datblygiad cynaliadwy i roi ffurf ar eich gweithredoedd ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych?

Yn hynny o beth, nid yw gosod amcanion a chamau'n fater o 'fusnes fel arfer'. Yn y gorffennol, rydym wedi dethol themâu a blaenoriaethau ac wedi ysgrifennu cynlluniau sy'n dangos yr hyn yr ydym ni'n ei wneud beth bynnag. Hyd yn oed heddiw, er gwaetha'r ffaith fod y dystiolaeth yn yr asesiadau'n dangos ystod o dueddiadau brawychus, ymddengys fod PSBau ond yn ymwneud â thiriogaethau diogel ac annadleuol. Mae addasu eich ffyrdd o weithio'n gofyn am ddull sylfaenol wahanol o weithio a meddwl, a rhaid i chi roi amser a lle i chi eich hunain i holi a yw dulliau presennol o ymdrin â darparu gwasanaethau cyhoeddus yn addas ar gyfer y dyfodol, ac archwilio pwyntiau pwysau allweddol a thensiynau cyflawni ar gyfer pob un o'ch amcanion. Yn ymarferol, byddwn i'n

cynghori fod angen i chi ddefnyddio un cyfarfod BGC, neu greu sesiwn, i edrych ar y pum dull o weithio isod ar gyfer pob un o'ch amcanion, a chael trafodaeth onest am y tensiynau rhwng materion polisi ac arferion presennol yn eich sefydliadau, yng nghyd-destun pob un o'r amcanion. Dylai hyn wedyn yrru eich trafodaethau o ran y modd y gallwch weithredu dulliau newydd o ymdrin ar y cyd â'r camau y byddwch chi'n eu cymryd i gyflawn eich amcanion a gwneud yn fawr o'r cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Buaswn i'n cynghori eich bod chi'n dangos sut y bu i'ch PSB ystyried y canlynol yng nghyd-destun pob un o'ch amcanion:

- **Hirdymor:** Beth yw eich dealltwriaeth chi o'r tueddiadau, cyfleoedd, peryglon a senarios tebygol hirdymor ynglŷn â'r mater hwn? A oes bylchau yn eich data neu ddealltwriaeth ar hyn o bryd? Pa rag-weledigaeth neu wybodaeth am dueddiadau'r dyfodol sydd eu hangen arnoch i gael gwell dealltwriaeth o'r mater? Pa gapasiti, hyder ac arbenigedd sydd eu hangen arnoch i ddeall / i lenwi bylchau mewn gwybodaeth? Mae fy nhîm yn gweithio gydag eraill i gynyddu capasiti yn y maes hwn a baswn i'n eich annog i ddefnyddio ac ycwhanegu at adnoddau adroddaid 'Tueddiadau'r Dyfodol' Llywodraeth Cymru, sydd ar gael drwy Objective Connect a thrwy gysylltu â David Thomas.
- **Atal:** Wrth ystyried y mater hwn, a oes gennych chi ddealltwriaeth o'r hyn yr ydych chi'n ceisio'i atal? Beth yw achosion craidd y mater a phryd fyddai'r adeg orau i ymyrryd?

  Ydych chi'n glir a yw hyn yn ymyriad cynradd a beth sydd angen h.y. ceisio atal rhywbeth cyn iddo ddigwydd hyd yn oed; ataliad eilaidd h.y. atal rhywbeth rhag gwaethygu; neu ataliad trydyddol h.y. lleihau effaith rhywbeth y mae ganddo effeithiau parhaus? Dyma'r gwahaniaeth rhwng annog rhywun i wisgo helmed beic (atal anaf i'r pen yn y lle cyntaf); rhoi rhywun yn y safle adferiad ar ôl iddyn nhw ddisgyn oddi ar eu beic (ataliad eilaidd drwy stopio'r anaf rhag gwaethygu) a rhoi cwnsela ar ôl y ddamwain (ataliad trydyddol i helpu anafiadau parhaus rhag gwaethygu).

  Yr achos mewn sawl BGC yw nad ydynt wedi defnyddio'u hasesiadau'n llawn i ddeall yn llwyr y sefyllfa bresennol, na maint a natur yr ymateb sydd ei angen. Mae negeseuon amlwg yn y data sydd angen eu harchwilio ymhellach er mwyn deall achosion ac effeithiau materion a thueddiadau allweddol yn well, er mwyn cynghori eich camau.
- **Cydweithio:** Mae hi'n bwysig fod y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC yn gallu dod â'r ystod orau o weledigaeth, her adeiladol, data ac atebion gerbron y BGC. A yw'r bobl gywir o gwmpas y bwrdd gennych, ar y lefel gywir i wneud penderfyniadau ynglŷn â'r mater? Pwy arall allech chi alw arnynt i gydweithio gyda chi i ddeall hyn yn well? Fel yr argymhellwyd yn fy adroddiad ar yr Asesiadau Llesiant, dyma gyfle amserol i adolygu'r aelodaeth a wahoddir i'rBGC ac ystyried pwy yw'r cyfranogwyr 'annisgwyl' y gallech chi fod yn cydweithio gyda nhw er mwyn cymryd y camau i gwrdd â'r amcan hwn.

  Wrth gyflawni'r camau, sut allai eich sefydliadau gydweithio? Bydd angen i chi ddangos sut mae eich BGC yn ystyried y camau sydd angen eu cymryd ar y cyd ac ar draws ffiniau sefydliadol er mwyn cwrdd â'ch amcanion yn effeithiol. Gallai hyn gynnwys lleoli staff ar y cyd, torri strwythurau traddodiadol i lawr, trefnu cyfnewid swyddi a secondio a chyfuno adnoddau.

- **Integreiddio:** Ar gyfer pob amcan, sut ydych chi'n mynd i symud i ffwrdd o wneud rhywbeth sydd ddim ond yn cwrdd â'r amcan hwnnw, ac yn hytrach, ddangos eich bod chi'n cymryd camau sy'n gwneud yn fawr o'ch cyfraniad i bob un o'r nodau? Yn hytrach nag edrych ar y mater hwn yn yr ystyr draddodiadol a chyffredinol, ydych chi wedi edrych ar y diffiniad ar gyfer pob un o'r nodau hyn er mwyn ymestyn eich dealltwriaeth o lesiant ar gyfer y mater hwn a'r cyfle a allai fodoli ar gyfer cwrdd â'r nodau hyn drwy bob un o'ch amcanion? Pa mor dda ydych chi'n deall y cyfraniad mae eich sefydliad yn ei wneud ar hyn o bryd tuag at yr amcan hwnnw? Ac a ydych chi'n deall pa mor wahanol yw'r cyfraniad y bydd angen i chi ei wneud yn y dyfodol ar gyfer yr amcan hwn?

  Sut allwch chi ddilyn yr hyn sy'n digwydd mewn mannau eraill yn eich sefydliadau, y strategaethau a'r cynlluniau ar lefel ranbarthol neu genedlaethol, er mwyn cysylltu ag eraill wrth gyflawni'r amcan hwn? Drwy wneud hyn, pa rwystrau neu densiynau sydd wedi codi a pha gamau allwch chi (neu eraill) eu cymryd i'w symud? Pwy arall sydd ei angen o gwmpas bwrdd y PSB i'ch helpu i wneud cysylltiadau rhwng gwneud penderfyniadau a gwella llesiant ynglŷn â'r mater hwn?

- **Ymwneud:** Sut ydych chi'n mynd i ddangos y ffordd rydych chi wedi cynnwys cymunedau yn y gwaith o ddiffinio'r heriau a'r cyfleoedd sydd ynghlwm â chwrdd â'r amcan hwn? Sut ydych chi'n cymryd camau i ddeall y profiadau sydd wedi cael eu byw gan bobl yn eich ardal, a sut y mae hyn yn rhoi ffurf ar eich gweithredoedd? Sut ydych chi'n ceisio'n hyfyw ffyrdd gwell o gynnwys pobl yn y broses o wneud penderfyniadau? Sut allwch chi gydweithio gydag aelodau'r gymuned wrth gwrdd â'r camau hyn? Fel yn achos Bwrdd Gofal Cymdeithasol Cymru, pa ddewisiadau sydd ar gael ar gyfer cynnwys pobl â phrofiad bywyd ar Fyrddau ac mewn grwpiau partneriaeth?

Gwnaeth eich dull blaengar o gyflwyno eich asesiad llesiant ar lein, a'r gallu i weld gwybodaeth mewn ffyrdd gwahanol, argraff arnaf. Llwyddodd hyn i ddangos o dipyn i beth fod datblygu cynaliadwy'n cysylltu'r amgylchedd rydym ni'n byw ynddo, yr economi rydym ni'n gweithio ynddi, y gymdeithas yr ydym ni'n ei mwynhau a'r diwylliannau a rennir gennym, â'r bobl ac ansawdd eu bywyd. Fe wnes i awgrymu yn fy adborth i'ch asesiad llesiant y gallech chi adeiladu ar y seiliau hyn drwy ddarparu mwy o fanylion ar yr integreiddio a'r rhyng-gysylltiadau sy'n bodoli rhwng materion, a mwy o fanylion ar y modd y gallai taclo'r materion hyn gyfrannu at y saith nod.

Mae eich themâu cyffredin hefyd yn dangos y rhyng-gysylltiad hwn, a buaswn i'n eich annog i ddangos eich dull o feddwl am hyn wrth i chi osod eich amcanion a'ch camau. Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth feddwl am rolau perthynol eich sefydliadau gwahanol wrth wneud yn fawr o'ch cyfraniad i'r nodau. Fy nghyngor yw y dylech ddangos eich dull o weithio – eich rhesymwaith, esboniad, a chyd-destun penodol eich amcanion a chamau ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych.

Fel BGC, mae'n bwysig eich bod chi'n deall ysgogiad eich gilydd ac yn teimlo fod y cynllun llesiant yn adlewyrchu eich gweledigaeth gyfun ar gyfer dyfodol BGC Conwy a Sir Ddinbych. Er mwyn cael dealltwriaeth a pharch ar y cyd at broffesiwn pawb, mae cyfarfodydd BGC mewn rhai ardaloedd bellach yn sesiynau gweithdai BGC, sy'n digwydd yn lleoliadau gwaith pob un o sefydliadau'r aelodau neu mewn lle sy'n berthnasol i'r pwnc a drafodir. Buaswn i'n eich annog i archwilio pob dewis sy'n hwyluso gwell dealltwriaeth o waith eich gilydd a chyfleoedd ar gyfer gwell integreiddio a chydweithio.

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Mae'r arweiniad a'r ddealltwriaeth ar y cyd mewn BGC yn treiddio drwodd i'r aelod-sefydliadau ar bob lefel. Rwy'n awyddus i ddeall sut y cefnogir BGCau gwahanol ar draws Cymru a'r effaith y mae hyn yn ei gael ar gynllunio llesiant. Er nad yw'n fodel sy'n dal dŵr yn llwyr, pan fydd cefnogaeth yn dod o asiantaethau lluosog, mae hyn yn galluogi i'r BGC gael ei gyllido'n well ac, yn ddi-os, yn caniatâu i well integreiddio ddigwydd rhwng sefydliadau, adrannau a phynciau. Caf fy nghalonogi gan y ffaith fod eich tîm cefnogi'n gweithio'n rhanbarthol a bod gennych BGC cydweithredol, ond er mwyn perchnogi'r cynllun hwn drwyddi draw a sicrhau fod y camau a gymerwch wedi'i deall a'u hymgymryd gan y cyrff sy'n aelodau o'r BGC, efallai yr hoffech ystyried cael trefniadau gweithio mwy agos neu secondiadau a chyd-leoliadau mwy ffurfiol.

Fel uchod, dylech hefyd ystyried sut i gynnwys 'pobl annisgwyl' a'r bobl yr ydych chi'n eu gwasanaethu yn eich gwaith er mwyn cael llun llawer mwy cyfoethog o'r camau effeithiol y gallwch chi eu cymryd i gwrdd â'ch amcanion drafft. Ledled Cymru, mae hi'n bwysig ein bod ni'n symud oddi wrth weld y BGC fel cyfarfod pwyllgor dan arweiniad awdurdod lleol, ac yn hytrach ei weld fel cyfle i ddarparu gwasanaethau sydd wedi'u gwreiddio yn realiti bywydau pobl, ac a fydd o fudd i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Bydd hyn yn galw arnoch chi, bobl mewn safleoedd arwain, i chwarae eich rhan wrth helpu i yrru'r newidiadau sydd angen eu gwneud. Gobeithio y byddwch chi'n dal ati i arwain dull o ddod o hyd i atebion gwahanol a seilir ar wybodaeth, o'i gymharu â'r ffordd yr arferid gwneud pethau.

Mae nifer o'ch themâu cyffredin yn ymwneud ag adeiladu ar wytnwch cymunedol ac ymhyfrydu yn eich ardal; cynnwys pobl yn y dull yr ydych chi'n gwarchod a gwella eich amgylchedd naturiol; a galluogi pobl i gael dechrau iach mewn bywyd a bod yn iach drwy gydol eu hoes hyd at eu henaint. Caf fy nghalonogi i weld fod nifer o'r gweithredoedd a ddaeth i'r amlwg yn eich gweithdai'n adeiladu ar y cryfderau sydd eisoes yn bodoli yn y meysydd hyn – yr wybodaeth, y dystiolaeth a'r doethineb sydd gan y gwasanaethau ar hyn o bryd. Serch hynny, buaswn yn eich cynghori fod hyn yn ymestyn at ddefnyddio doethineb a phrofiadau bywyd y bobol syn byw yn eich cymunedau er mwyn eich helpu i ddod o hyd i atebion blaengar i wella llesiant.

***Galluogi pobl i gael dechrau iach mewn bywyd ac i fod yn iawn drwy gydol eu bywyd hyd at eu henaint***

Mae nifer o'ch themâu cyffredin yn ymwneud ag iechyd a llesiant drwy gydol cwrs bywyd. Gallaf weld eich bod eisoes wedi bod yn canolbwyntio ar y 1000 diwrnod cyntaf fel maes blaenoriaeth ac mae eich asesiad yn rhoi tystiolaeth fanwl o'r rheswm pam y dylai hyn fod yn ffocws i chi. Gwelir beichiogrwydd a blynyddoedd cynnar bywyd fel 'mater iechyd' yn aml, ond buaswn i'n eich cynghori i gymryd camau ar fyrder i integreiddio gwasanaethau'n well, gan gyd-leoli timau, crynhoi adnoddau a gweithio mewn ffordd sy'n synhwyrol ar gyfer y gymuned honno, wedi'i anelu at y blynyddoedd cynnar a'u teuluoedd. Wrth amlinellu eich camau ar y cyd i roi'r dechrau gorau ar fywyd i bobl, buaswn i'n eich cynghori i fod yn benodol am yr hyn yr ydych chi'n bwriadu'i wneud yn eich ardal h.y. pa dystiolaeth leol ydych chi wedi'i defnyddio i ddeall meysydd penodol ymyriadau ataliol llwyddiannus mewn rhannau gwahanol o Gonwy a Sir Ddinbych? Pa wasanaethau lleol fydd yn cael eu heffeithio os ydych chi'n dargyfeirio buddsoddiad tuag at 1000 diwrnod cyntaf bywyd plentyn?

Mae'n amlwg fod atal wrth wraidd yr amcan drafft hwn ac mae'n dechrau gyda gweld eich sefydliadau'n deall effeithiau hirdymor cael y dechrau gwaethaf mewn bywyd, a sut y mae hynny'n effeithio ar eich sefydliad chi eich hunan, p'un ai ydych chi'n Awdurdod Lleol, swyddogion Tân ac Achub, swyddogion yr heddlu neu yn y drydedd sector. Mae costau peidio ag ymyrryd yn gynnar yn enfawr, i fywyd yr unigolyn, ac i wasanaethau cyhoeddus, fel ei gilydd. Amcangyfrifir fod gwasanaethau ymyrryd yn hwyr ar gyfer pobl ifanc yn costio £17bn y flwyddyn i

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru | Future Generations Commissioner for Wales

Gymru a Lloegr (£6bn ar ddiogelu a gwarchod plant, £5.2bn ar drosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, £3.7bn ar ddiffyg gweithredu economaidd pobl ifanc, £680m ar absenoldeb ac eithrio o ysgolion, £610m ar anafiadau a phroblemau iechyd meddwl ymysg plant, a £450m ar gamddefnyddio sylweddau ymysg pobl ifanc).

Bydd llawer o bethau'n effeithio ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc. Er enghraifft, canfu adolygiad yn 2013 gan y London School of Economics ar ran Sefydliad Joseph Rowntree fod gan blant mewn teuluoedd incwm is ddeilliannau gwaeth gwybyddol, ymddygiad-cymdeithasol ac iechyd. Yn hanfodol, dangosodd yr astudiaeth hon fod hyn yn rhannol am eu bod nhw'n dlawd, nid dim ond am fod cydgysylltiad rhwng incwm is a nodweddion eraill o ran y teulu a'r rhieni. Sut all y BGC gydweithio gydag eraill i wella llesiant economaidd teuluoedd ar draws y rhanbarth? Fe wnaeth eich asesiad llesiant chi dynnu sylw at lefelau amrywiol o gyfoeth ar draws yr un ar ddeg ardal gymunedol. Sut all y cymunedau hyn, yn enwedig, gael sylw? Os ydym ni'n gwybod fod amgylchiadau ble maen nhw'n byw eisoes yn effeithio ar lesiant plant mewn rhai ardaloedd erbyn iddyn nhw gyrraedd y dosbarth derbyn yn yr ysgol, yna rhaid i ni fod yn ymyrryd yn llawer cynt wrth ymateb i'r tueddiadau hynny.

Yn ogystal ag incwm, gwyddom fod iechyd y fam a'r teulu hefyd yn cael effaith fawr ar fywyd plentyn. Ymhlith themâu eraill sy'n amlygu'u hunain o'ch asesiad llesiant mae iechyd meddwl da a chynyddu gwytnwch cymuned. Bydd rhwng 10% a 20% o fenywod yn datblygu problemau iechyd meddwl yn ystod beichiogrwydd neu o fewn blwyddyn i roi genedigaeth. Mae'r salwch hwn ymysg un o brif achosion marwolaeth mamau yn ystod beichiogrwydd ac yn y flwyddyn ar ôl rhoi genedigaeth. Er gwaethaf hyn, nid oes gan fenywod ar draws tua hanner y DU fynediad i wasanaethau iechyd meddwl amesgorol arbenigol, ac mewn ardaloedd daearyddol eraill, mae'r gwasanaethau'n annigonol. Fel y bu i chi ei adnabod yn eich asesiad llesiant, mae angen dull traws-asiantaeth o ymdrin â gwasanaethau iechyd meddwl, ac un esiampl o hyn yw prosiect 'Mums and Babies in Mind' yn Lloegr, sydd wedi rhoi ffocws i arweinwyr lleol i greu llwybr ar draws sectorau sy'n darparu'r gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir i fenywod beichiog a mamau newydd.

Nid dim ond eich cyfrifoldeb chi yw galluogi pobl i gael dechrau da mewn bywyd, ond hefyd y teuluoedd y bydd plant yn cael eu magu ynddynt a'r cymunedau ble maen nhw'n byw, yn ogystal â'r teuluoedd y maen nhw yn eu tro yn eu meithrin. Felly, wrth ystyried pa gamau y gallech eu cymryd, fe allai gwaith Sefydliad New Economics ar fuddsoddi mewn plant fod o ddefnydd, sy'n tynnu sylw at yr angen i ymdrin â llesiant materol yn ogystal ag amgylchiadau allanol – megis tai, tlodi ac ysgolion – yn ogystal â llesiant seico-gymdeithasol ac adnoddau mewnol. Rydw i wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Comisiynydd Plant, er mwyn cynhyrchu pecyn adnoddau sy'n ymdrin â dilyn dull hawliau'r plentyn o wneud yn fawr o'r cyfraniad i'r saith nod llesiant cenedlaethol. Mae'r pecyn adnoddau hwn wrthi'n cael ei ddatblygu a'i dreialu a bydd ar gael cyn bo hir. Byddai swyddfa'r Comisiynydd yn falch o'ch cynghori ar ymwneud â phlant a phobl ifanc a gweithredu dull plentyn-ganolog.

Buaswn i'n eich cynghori i weld y gost hon drwy lygaid rhywun nad ydyw wedi derbyn y cymorth cynnar a allai fod wedi'i osod ar lwybr gwahanol. Dim ond drwy ddeall profiadau bywyd pobl y gallwn ni ddylunio gwasanaethau sy'n addas ar gyfer cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol. Mae un o'ch gweithredoedd drafft yn ymwneud ag adolygu'r trothwy pan fydd pobl yn derbyn cymorth a buaswn i'n eich cynghori i fod yn ddewr er mwyn cymryd camau i symud adnoddau i gyfeiriad darparu help yn fwy buan. Mae hyn yn gofyn am weithredu dull mwy integredig, am ein bod ni'n aml yn trin symptomau profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), yn hytrach na'r achosion craidd. Mae hyn yn golygu cynnwys pobl yn y dull y maen nhw'n helpu'u hunain a chymryd golwg mwy holistig ar y bobl sy'n cael eu gwasanaethu gan eich sefydliad, yn hytrach na chategoreiddio pobl fel

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

'claf iechyd meddwl', 'troseddwr', 'camddefnyddiwr sylweddau' neu 'ddioddefwr trais yn y cartref'. Mae'r astudiaethau achos a gynhwysir yn yr adroddiad hwn gan Locality yn dangos costau ariannol a chymdeithasol peidio â dilyn y dull holistig ac ataliol hwn.

Mae Alyson Francis, Cyfarwyddwr Hýb Cefnogi ACE, wedi gweithio gyda fy swyddfa i'n ddiweddar hefyd, er mwyn ysgrifennu atoch i amlinellu nad peth arall i'w wneud yw ACE, ond cyfle i ailystyried sut yr ydym ni'n darparu gwasanaethau gyda'n gilydd sy'n gwneud synnwyr i'r teuluoedd sy'n eu derbyn. Gallai'r Hýb Cefnogi ACE hefyd weithredu fel lle canolog ble gallai BGCau rannu arferion, am fod bron i bob un o'r BGCau yng Nghymru wedi trafod y blynyddoedd cynnar, plant ac ACE yn eu hamcanion drafft a'u camau.

Mae iechyd meddwl a llesiant a rhoi presgripsiwn cymdeithasol / gwyrdd wedi dod i'r amlwg fel themâu cyffredin ar gyfer Conwy a Sir Ddinbych. Mae hyn yn cysylltu â'ch themâu eraill o gynnal annibyniaeth pobl hŷn, helpu dinasyddion i wneud newidiadau ymddygiad cadarnhaol a datblygu canolfannau cymunedol. Mae eich dadansoddiad yn dangos mai Conwy sy'n profi cyfradd hunanladdiad uchaf Gogledd Cymru, sef 14.4 i bob 100,000 o'r boblogaeth, a bod cyfartaledd Sir Ddinbych (11.2) hefyd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol yng Nghymru – sef 9.2 fesul 100,000. Mae'r asesiadau llesiant yn tynnu sylw at nifer o dueddiadau brawychus, megis hwn, a byddwn i'n eich annog i holi a ydych chi'n gweithredu'r dull addas o weithio, a beth sydd angen newid. Fel y drafftiwyd ef ar hyn o bryd, nid wyf i'n credu fod eich gweithredoedd drafft yn dangos y newid mawr sydd ei angen, a buaswn i'n awgrymu fod y gweithredoedd drafft sydd wedi deillio o'ch gweithdai hyd yn hyn wedi'u canolbwyntio ar gynnal busnes fel y bu. Er bod codi ymwybyddiaeth o faterion iechyd meddwl yn bwysig, hoffwn eich annog i feddwl am sut rydych chi'n eich herio'ch hunain i wneud gwahaniaethau go iawn i'r gwasanaeth a dangos eich bod chi'n gwneud yn fawr o'ch cyfraniad i bob un o'r saith nod llesiant cenedlaethol.

Mae'r mater hwn yn galw am ymyriad cynt ac ataliad, am fod rhyw 50% yn fras o bobl sy'n dioddef problemau iechyd meddwl parhaol yn arddangos symptomau erbyn eu bod yn 14 mlwydd oed, a llawer yn dangos symptomau hyd yn oed yn iau na hynny. Os yw'r symptomau yno mor ifanc, beth ellir ei wneud i atal problemau'n ddiweddarach mewn bywyd? Os gwyddom ar gyfartaledd fod y GIG yn gwario dros £21miliwn ar bresgripsiynau meddyginiaeth gwrth-iselder, sut allwn ni weithredu'n gynt? Fel yr ydych chi wedi adnabod, gall rhoi presgripsiwn cymdeithasol gynnig dewis amgen, ac mae'n galonogol eich gweld yn cydnabod hyn. Mae'r astudiaeth hon, ar roi presgripsiwn cymdeithasol ym Mryste, yn rhoi gwybodaeth am wahanol fodelau ac yn rhoi rhywfaint o fewnwelediad i'r gwelliannau a ddeilliodd mewn iechyd meddwl ac iechyd corfforol cyffredinol.

Gall modelau rhoi presgripsiwn cymdeithasol gael manteision lluosog, megis y modd y gall cymryd rhan mewn dosbarthiadau cadw'n heini leihau unigrwydd cymdeithasol pobl hŷn, yn ogystal â helpu i'w hatal rhag cwympo. Mae prosiect Coed Actif Cyfoeth Naturiol Cymru wedi dangos yr ystod o effeithiau cadarnhaol ar iechyd a llesiant sy'n gallu deillio o fynd am dro mewn grŵp, gyda phrosiectau'n digwydd yn Wrecsam ac Ynys Môn. Pa gyfleoedd allai fodoli i gyflwyno rhaglenni tebyg yng Nghonwy a Sir Ddinbych, a fyddai'n cynnig deilliannau cadarnhaol ar gyfer cynnal yr amgylchedd naturiol yn ogystal? Fe wnaeth rhaglen ddogfen ddiweddar y BBC, 'The doctor who gave up drugs', ddangos sawl esiampl o'r ffordd y gall dulliau amgen o roi presgripsiwn am dabledi arwain at effaith fwy holistig, hirdymor, cadarnhaol ar fywyd rhywun – wrth i bobl ddod yn fwy corfforol heini ac yn iachach yn feddyliol, heb orfod dibynnu ar bresgripsiwn.

Mae hyn hefyd yn cynnig cyfle i gyfrannu at Gymru sy'n llachar o ran diwylliant, ac yn hyfyw o ran y Gymraeg, drwy annog pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol i helpu i reoli'u salwch. Mae strategaeth

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Cyngor Celfyddydau Cymru yn amlinellu rhai o'r manteision y gall ymwneud â gweithgareddau creadigol ei gael ar y boblogaeth, ac mae'r Rhaglen Gomisiynu Ddiwylliannol, a ariennir gan Gyngor Celfyddydau Lloegr, yn ceisio helpu comisiynwyr gwasanaethau cyhoeddus ddeall sut y gallant wella deilliannau drwy integreiddio gweithgareddau celfyddydol a diwylliannol mewn ystod o wasanaethau, gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant, pobl hŷn a chomisiynu sy'n seiliedig ar le. Yn hynny o beth, mae manteision i'w cael wrth gydweithio gyda'r cyrff cyhoeddus cenedlaethol sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, megis Chwaraeon Cymru, Cyngor Celfyddydau Cymru, yr Amgueddfa Genedlaethol a Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a allai weithio gyda chi ar y modd y gallai eich camau tuag at gyflawni'r amcan hwn wneud yn fawr o'r cyfraniad i'r nodau. Gadewch i fy nhîm wybod a hoffech chi gysylltu â'r unigolion perthnasol yn y sefydliadau hyn os gwelwch yn dda.

Mae eich asesiad llesiant yn amlinellu fod Conwy a Sir Ddinbych yn gartref i niferoedd uwch na'r cyfartaledd o bobl hŷn. Fel yn sawl ardal arall o Gymru, mae'r rhagolygon i'r dyfodol yn awgrymu y bydd mwy o bobl yn byw'n hŷn yn y dyfodol. Buaswn yn eich annog i weld y bobl hŷn hynny fel ased ac ystyried sut y gallech eu hannog i gymryd rhan ym mywyd y gymuned. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn wedi rhoi enghreifftiau o'r modd y gall pob un ohonom gefnogi pobl i heneiddio'n dda yng Nghymru. Mae llawer o hyn yn ymwneud â deall a gwerthfawrogi profiadau bywyd y boblogaeth hŷn, integreiddio gwasanaethau gan ystyried person hŷn a chydweithio – torri drwy rwystrau sy'n bodoli rhwng eich gwasanaethau er mwyn gwneud pethau sy'n gwneud y synnwyr mwyaf i bobl hŷn.

Roedd gennyf ddiddordeb clywed am enghraifft sy'n lleol i chi, ble cymerodd staff Betsi Cadwaladr 'bum niwrnod mewn ystafell' i ystyried sut y gellid gwella gwasanethau ar gyfer pobl hŷn. Rwyf wedi clywed fod y sylw gorfodol hwn ar fater wedi dymchwel camddealltwriaeth rhwng gwasanaethau gan alluogi i newidiadau llesol ddigwydd i lwybrau gwasanaeth. Beth a ddysgwyd gan eich BGC o ganlyniad i'r ymarfer hwn a sut allai hynny gael ei ail-greu ar gyfer materion eraill?

***Cynnwys pobl yn y modd yr ydych chi'n gwarchod a gwella eich amgylchedd naturiol***

Bu i adroddiad diweddar Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Cymru ar isadeiledd gwyrdd archwilio'r cyswllt rhwng isadeiledd gwyrdd a thwf economaidd, gan bwysleisio ei fod yn denu buddsoddi i mewn, yn creu cyfleoedd twristiaeth ac yn cynyddu gwariant gan ymwelwyr. Rydych chi wedi adnabod yn gywir fod eich dwy sir yn ardaloedd o harddwch naturiol a threftadaeth eithriadol. Mae Parc Cenedlaethol Eryri, Dyffryn Dyfrdwy, Castell Conwy, yr arfordir a'r cefn gwlad braf yn y ddwy ardal yn gartref i fywyd gwyllt amrywiol, a dylid eu hystyried fel asedau. Mae sawl un o'r themâu a adwaenwyd gennych yn cysylltu â gwarchod a gwella eich amgylchedd, cynnwys pobl mewn dull lleoliad-seilidig i gynllunio at y dyfodol. Mae hyn yn galonogol i'w weld, ond buaswn i'n gofyn i chi geisio deall y rolau a'r cyfrifoldebau sydd gennych chi fel sefydliadau mawrion mewn gwarchod yr amgylchedd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gan fod yn glir wrth ddangos sut yr ydych wedi gweithredu'r pum dull o weithio yn y camau y byddwch chi'n eu cymryd i gwrdd â pha bynnag amcan sy'n cael ei ddrafftio. Bydd hyn yn cynnwys sut y byddwch chi'n cynllunio, dylunio a lleoli datblygiadau yn y dyfodol (fel rhan o'ch Cynllun Datblygu Lleol), adeiladau, isadeiledd a lleoedd cyhoeddus a chymunedol eraill.

Mae Conwy a Sir Ddinbych eisoes wedi profi effaith digwyddiadau tywydd eithafol, wrth i Brestatyn ddioddef llifogydd bythefnos yn ôl; y llifogydd ofnadwy bedair blynedd yn ôl yn Llanelwy a Rhuthun; a gorlifo'r llynedd yn Nyffryn Conwy a Llanrwst. Rydych chi wedi adnabod, yn gywir, yn eich asesiad fod effeithiau hirdymor ein hinsawdd gyfnewidiol yn cynnig heriau penodol i'ch ardal chi, gan gynnwys erydiad arfordirol a cholli cynefin i

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
**cenedlaethaurdyfodol.cymru**

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
**futuregenerations.wales**

lawer o'ch rhywogaethau. Rhaid i chi ddangos eich bod wedi defnyddio'r saith nod llesiant cenedlaethol i ystyried pa weithredoedd y gallwch chi eu cymryd i leihau, rheoli neu ateb y peryglon hyn dros y tymor byr, canolig a hir. Fe allai'r ddogfen hon, a gynhyrchwyd rhai blynyddoedd yn ôl – Gweithio Gyda Hinsawdd sy'n Newid – a gyhoeddwyd ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, eich helpu i ystyried sut i weithredu i addasu i newid hinsawdd. Mae'n enghraifft ragorol o'r ffordd y dylid cyfathrebu'r effeithiau, gan gynnwys atebion posib mewn dull sy'n hawdd i'w ddeall, a buaswn i'n eich annog i ddefnyddio'r dull hwn gyda chymunedau ehangach.

Fel yr awgryma eich gweithredoedd drafft, mae cydweithio gyda chymunedau i leihau tebygrwydd ac effaith llifogydd yn hanfodol. Mae prosiectau fel 'GlawLif' drwy gyfrwng Dŵr Cymru yn awgrymu ffyrdd y gall pawb leihau effeithiau llifogydd. Am mai 'ailgysylltu pobl â'r amgylchedd dyfrol' yw un o'ch gweithredoedd drafft chi, rwy'n credu fod cynnwys pobl i ystyried pam fod hwn yn fater mor bwysig yn hanfodol os ydych chi'n mynd i greu newid. Mae cymunedau eraill yn cael effaith gadarnhaol ar eu hamgylchedd drwy gymryd cyfrifoldeb a chyflwyno cynlluniau ynni adferadwy cymunedol, adeiladu busnesau cynaliadwy a gwella bioamrywiaeth. Enghraifft eithafol yw honno yn Ynys Eigg yn yr Alban, ble mae'r gymuned bron â bod yn hunangynhaliol. Gallai deall y potensial dihysbydd nad yw cymunedau gwahanol wedi manteisio arno eto olygu dargyfeirio adnoddau ar y cyd i alluogi staff i dreulio mwy o amser ar leoliad, yn ymwneud â'r cymunedau a'u deall mewn rhannau amrywiol o'r rhanbarth er mwyn gwneud newidiadau cadarnhaol ynglŷn â'r dull y mae'r gymuned yn cynllunio ar y cyd ac yn rhagweld peryglon newid hinsawdd. Am fod 75% o'r tir yn cael ei gynnal gan ffermwyr, pa gefnogaeth allai fod ei angen arnynt i baratoi a gwarchod eu tir yn well rhag llifogydd? Sut y gall cydweithio gyda nhw annog defnydd cyfrifol o dir?

Mae llawer o'r ardaloedd mwy difreintiedig yn y siroedd dan fwy o berygl oherwydd llifogydd ac erydiad. Mae eich asesiad chi wedi adnabod yn gywir fod codiad yn lefel y môr yn rhoi sawl ardal yn y rhanbarth dan berygl mawr. Amcangyfrifir fod newid blynyddol arfaethedig i eiddo preswyl yng Nghymru yn mynd i gostio £22miliwn. I'r cyfeiriad arall, gallai tywydd eithafol hefyd achosi sychder yn yr haf, gan arwain at brinder dŵr, dirywiad mewn bioamrywiaeth ac effaith olynol ar amaeth – un o bileri llesiant economaidd yn eich ardal chi. Mae adroddiad Pwyllgor Newid Hinsawdd y Du yn rhagweld y bydd gwres mawr marwol 2003 yn cael ei ystyried yn haf cyffredin erbyn y 2040au, gan dreblu'r nifer o farwolaethau cysylltiedig, a chan effeithio ar bobl hŷn yn enwedig. Sut ydych chi'n ystyried y cysylltiadau hyn â'ch thema amlygol o alluogi pobl hŷn i fyw'n annibynnol ac iach? Sut ydych chi'n defnyddio senarios hirdymor i fodelu beth allai ddigwydd i'r cymunedau hyn os nad yw eu strydoedd, trefi a pharciau yno mwyach, neu os ydyn nhw'n ymgodymu â lleihad mewn adnoddau naturiol? Pa weithredoedd allech chi eu cymryd nawr i gyfrannu at atal y digwyddiadau hyn? Gwelir un enghraifft o fuddsoddi mewn amddiffynfeydd gorlifo yng Nghwm Tawe Isaf, prosiect £6.7m sy'n gwarchod 284 o fusnesau a lleoliadau diwydiannol sy'n cyflogi dros 10,000 o bobl.

Mae pobl wedi dweud wrthych yr hoffen nhw weld Conwy a Sir Ddinbych yn mynd yn garbon niwtral yn y dyfodol ac yn defnyddio mwy o ynni adnewyddol. Yn ddiweddar cyhoeddodd Llywodraeth Cymru lefelau allyriadau carbon wedi'u his-rannu yn ôl Awdurdod Lleol. Mae'r allyriadau uchaf yng Nghonwy a Sir Ddinbych o ganlyniad i drafnidiaeth ar y ffyrdd. Mae un o'ch themâu amlygol yn ymwneud â dewisiadau trafnidiaeth mwy hygyrch a fforddiadwy – sut y gellir deall hyn yng nghyd-destun yr angen i leihau allyriadau oddi wrth drafnidiaeth ar y ffyrdd da gwella isadeiledd cerdded, seiclo a thrafnidiaeth gyhoeddus? Sut allwch chi wrando'n well ar ysgogiad

preswylwyr a staff dros ddefnyddio'u ceir yn hytrach na theithio llesol? Mae angen cydweithio gyda phobl, gan gynnwys darparwyr trafnidiaeth leol, er mwyn dangos sut yr ydych hi'n ymdrin â'r saith nod wrth daclo hyn.

Caf fy nghalonogi'n fawr i weld thema amlygol a gweithredoedd o gwmpas eich cydweithio fel arweinwyr sector gyhoeddus er mwyn datblygu 'safon amgylcheddol' fel BGC Mae newid yn dechrau o fewn i'ch grym chi, felli rwy'n gobeithio y byddwch chi'n ystyried o ddifri beth allwch chi ei wneud nawr, fel Prif Weithredwr, Cadeirydd neu Arweinydd, i leihau effeithiau colli amgylchedd, a bod yn fwy cyfrifol yn fydeang fel BGC. Er mai dim ond cyfran fach o allyriadau Cymru sy'n deillio o'r sector gyhoeddus, rydych chi mewn lle unigryw i ddylanwadu ar allyriadau'n llawer ehangach mewn meysydd fel trafnidiaeth, ynni, defnydd tir a chaffael. Rwy'n annog pob BGC i edrych ar y modd y gallant ddod yn fwy cyfrifol yn fydeang ac, yn enwedig, i edrych ar eu rôl wrth leihau allyriadau a defnyddio pethau mwy cynaliadwy. Dyma gyfle i weithio ar draws Gogledd Cymru ac yn genedlaethol, am fod Llywodraeth Cymru'n ddiweddar wedi ymrwymo i wneud y sector gyhoeddus yn garbon-niwtral erbyn 2030, ac maent wedi rhyddhau Galwad am Dystiolaeth er mwyn archwilio'r mecanweithiau mwyaf effeithiol ar gyfer cyflawni'r uchelgais hwn. Fel BGC sydd eisoes yn adnabod ymrwymiadau yn hyn o beth, baswn yn eich annog i ystyried a chyfrannu cyn y dyddiad cau, sef 13 Medi.

Mae'r ymrwymiad hwn yn cydnabod y gwaith a ymgymerwyd gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) drwy gyfrwng ei Brosiect Carbon Cadarnhaol. Drwy gyfrifo effaith net carbon yn sefydliad, canfu fod dros 80% o'u hallyriadau'n anuniongyrchol (h.y. nid oherwydd defnyddio ynni yn ei ystâd na'i fflyd) gyda 55% yn dod yn unig o gaffael nwyddau a gwasanaethau. Dyma faes y dylai pob sefydliad fod yn ymchwilio iddo ymhellach a baswn i'n disgwyl gweld y BGC yn canlyn cyfleoedd i wneud arbedion carbon a chost drwy weithredu dull buddsoddi i arbed. Serch hynny, adnabu CNC ddewisiadau dichonadwy i leihau allyriadau ac i warchod a gwella crynoadau carbon. er enghraifft, canfu ei fod yn gallu cyflawni arbediad o hyd at 27% o allyriadau ymysg ei fflyd o gerbydau drwy fabwysiadau dewisiadau trafnidiaeth allyriadau isel. Dyma faes y dylech chi hefyd fod yn ei ystyried, a chaf fy nghalonogi i weld gweithred ddrafft sy'n ymwneud â cherbydau sector gyhoeddus trydan.

Ar y cyd, mae gennych hefyd lawer iawn o ystadau sector gyhoeddus a llais yn y modd y cynllunnir ac yr adferir adeiladau cyhoeddus. Mae ystyried pa mor 'wyrdd' yw'r adeiladau hyn, o ran effeithiolrwydd ynni ac adeiladu cynaliadwy fel ei gilydd, yn ffordd hawdd i chi o ennill fel BGC. Mae adroddiad Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt yng Nghymru i isadeiledd gwyrdd yn amlinellu sut y mae isadeiledd gwyrdd yn darparu ystod eang o fanteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol profedig, diriaethol a chost-effeithiol.

Mae sawl PSB arall yng Nghymru'n ceisio gwneud gwahaniaeth yn y modd hwn, megis BGCau Ynys Môn a Gwynedd, Bro Morgannwg, Powys, Ceredigion a Blaenau Gwent.

***Adeiladu ar wytnwch cymunedol ac ymfalchïo yn eich ardal***

Mae nifer o'ch themâu'n tynnu sylw at berchnogaeth gymunedol, cynyddu gwytnwch, dathlu asedau, meithrin balchder yn eich ardal a gwella cyfleoedd i bobl aros, byw a gweithio yn y rhanbarth. Bydd gosod amcanion a chamau o gwmpas y themâu hyn yn gofyn am gydweithio gyda phartneriaid nad ydych chi wedi ymwneud â nhw o'r blaen a gwneud yn siŵr fod gan y bobl sy'n eistedd o gwmpas bwrdd y BGC y ddealltwriaeth a'r weledigaeth addas i beri i newid ddigwydd.

Buaswn i'n awgrymu fod angen i chi gydweithio â Phrifysgol Glyndŵr a sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach cyfagos eraill yn y rhanbarth. Byddai cydweithio â busnesau ledled Gogledd Cymru hefyd o fudd. Pa rôl all Bwrdd

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru fod o gymorth ynddo wrth gasglu gwybodaeth a gweithredu gyda'r BGC? Pa gyfrifoldebau cymdeithasol a fabwysiadwyd gan y sector breifat yn yr ardal? Sut y mae busnesau'n dod ynghyd i yrru newidiadau cadarnhaol, hirdymor?

Bu i'ch gwaith denu dynnu sylw at ofid cynyddol ynghylch pobl ifanc yn gadael yr ardal a bwlch rhwng y sgiliau a enillwyd ganddynt a'r swyddi sydd ar gael. Ystyriwch pa sgiliau sydd eu hangen ar fyfyrwyr nawr i'w harfogi ar gyfer y dyfodol? Mae adroddiad Dyfodol Gwaith yn awgrymu y bydd creadigrwydd, cysylltedd, cyfathrebu a datrys problemau'n llawer pwysicach na gwybodaeth benodol, gyda mwy o waith yn seiliedig ar brosiect yn y dyfodol – yn hytrach na chyflogaeth benodol. Ymhellach, mae'r adroddiad yn rhagweld y bydd 65% o'r plant sy'n dechrau'r ysgol ar hyn o bryd yn gweithio mewn swyddi nad ydyn nhw hyd yn oed yn bodoli eto, pan fyddan nhw'n oedolion. Ac yn ôl McKinsey, gallai technoleg beri i 45% o dasgau swyddi sy'n cael eu gwneud am dâl gan bobl ar hyn o bryd fynd drosodd i fod yn swyddi a wneir gan beiriant. Mae rhai rhannau gwledig o Japan a Chanada hefyd wedi profi lleihad ym mhoblogaeth y bobl ifanc, gyda llawer yn symud i'r dinasoedd i gael mwy o gyfleoedd. Mae'r erthygl hon gan Fforwm Economaidd y Byd yn awgrymu y gallai rhywfaint o'r ateb ddod o fentrau cymunedol 'o'r gwraidd' sy'n tanio twristiaeth yr ardal. Bydd pobl ifanc yn ymhyfrydu ac yn cymryd perchnogaeth o ddweud wrth eraill am eu treftadaeth ac o ddechrau busnesau bach sy'n gallu elwa o ddyfodiad lluoedd o ymwelwyr.

Rydych hefyd wedi cydnabod fod gennych boblogaeth gynyddol o bobl hŷn, ac mae unigrwydd yn effeithio ar wrywod sy'n bwy ar eu pennau'u hunain dros 50 oed. Sut allech chi geisio taclo hyn yn yr hirdymor drwy gyfrwng y camau yr ydych chi'n eu cymryd i wella ymwneud pobl â bywyd y gymuned? Sut allwch chi ddefnyddio adnodd cyfun eich 'staff yn y maes' i'ch helpu i adnabod unigrwydd cymdeithasol? Mae ymchwil gan Heneiddio'n Dda yng Nghymru wedi dangos fod cyswllt agos rhwng unigrwydd ymysg pobl hŷn ac iechyd meddwl a chorfforol gwael, sut allwch chi wneud yn fawr o'r manteison o gynyddu ymwneud pobl hŷn yn eich ardal er mwyn gwella'u hiechyd? Mae Cyngor Cymuned Solfach yn enghraifft ddiddorol o'r modd y mae gwirfoddolwyr a phobl hŷn edi elwa o gynllun i leihau unigrwydd a gwella llesiantllesiant (http://solvacare.co.uk/).

Dim ond ymwneud â rhywbeth sy'n effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw, eu teuluoedd, neu'r lle ble maen nhw'n treulio amser, y bydd y rhan fwyaf o bobl. Fe wnes i ganmol eich asesiad llesiant am edrych ar broffiliau cymunedau, bydd adeiladu ar yr wybodaeth hon yn eich helpu i ddeall yr asedau, y cyfleoedd a'r rhwystrau sydd gan bobl i helpu'u hunain a gwella'r hyn sydd o'u cwmpas. Mae astudiaeth 'Lle Dwfn' yn Nhredegar gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru'n rhoi tystiolaeth ar sut y gall dealltwriaeth o le gael manteision lluosog. Yn aml, bydd pobl yn ymwneud â rhywbeth y mae ganddyn nhw ymlyniad ag ef yn arwain at ddeilliannau llawer mwy – fel y dangosir gan y gwaith y mae 'Datblygu Meithrin' yn ei wneud ym maes Datblygu Cymunedol ar Sail Asedau.

Mae rhywfaint o hyn yn ymwneud ag annog newid ymddygiad ymhlith eich poblogaeth, y dengys sawl adroddiad sy'n 'sticio' pan fydd pobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol ehangach gyda'i gilydd; er enghraifft, darganfu astudiaeth Nudied 'Mae Newid Ymddygiad yn Gamp Tîm' fod pobl yn dod ynghyd yn cynyddu patrymau ymarfer corff. Mae'u gwaith wedi cynnwys gweithio'n llwyddiannus gyda mamau ifanc yng Nghymoedd De Cymru i'w cael i ymwneud mwy mewn gweithgarwch corfforol. Unwaith eto, dyma gyfle i well mynediad i weithgareddau diwylliannol ac i hybu treftadaeth, defnydd o'r Gymraeg ac i annog pobl i ddod ynghyd o gwmpas bwyd a diod lleol. Buaswn i'n cynghori'r PSB i ddod o hyd i'r rhwydweithiau hyn sy'n bodoli eisoes, eu cynnwys, adeiladu ar y llwyddiannau hyn ac annog y rheiny sydd eisoes yn weithgar yn y gymuned. Yn hyn o beth, dylech ystyried pa rôl y mae eich Cynghorau Tref a Chymuned yn ei chwarae wrth gymryd camau i'ch helpu.

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
Future Generations Commissioner for Wales

Weithiau, byddwn ni'n creu rhwystrau rhag bod pobl yn cael mynediad i wasanaethau ac yn cymryd rhan mewn pethau. Am fod Conwy yn beilot ar gyfer rhaglen hyblygrwydd cyllido Llywodraeth Cymru ar daclo tlodi, buaswn i'n eich cynghori i achub ar y cyfle hwn i weld y gwasanaethau o safbwynt pobl sy'n eu defnyddio. Ydy'r ffyrdd y mae pethau'n gweithio ar hyn o bryd yn gwneud synnwyr i rywun sy'n cael mynediad i wasanaethau. Mae eich gweithredoedd drafft yn cynnwys defnydd o asedau cymunedol i greu 'hybiau' a chynnwys y gymuned mewn cynlluniau sy'n ymwneud ag agweddau amgylcheddol a chymdeithasol eu hardal. Er bod cael 'rhywle i fynd' yn bwysig iawn i'r rhan fwyaf o gymunedau, ystyriwch sut y gallai pobl gyfathrebu a dod ynghyd yn y dyfodol. Dengys ymchwil fod plant rhwng pump ac 16 oed yn treulio chwe awr a hanner y dydd ar gyfartaledd o flaen sgrin; mae 28% o bobl ifanc yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol fel prif ffynhonnell newyddion; mae 43% o 'filenwyr' yn cael eu hysbrydoli i roi cyfraniadau ariannol drwy gyfrwng y sianelau cymdeithasol. Pa fath o newidiadau fyddai angen i chi eu gwneud i'ch systemau trefnu a'ch polisïau er mwyn galluogi pobl i ymwneud mwy mewn cymunedau, a rhoi ffurf ar wasanaethau lleol?

Buaswn yn cynghori pob un o'ch sefydliadau i ymrwymo i'r Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol a nodi y gall Cyfranogi Cymru gefnogi eich swyddogion i gael y sgiliau hanfodol ar gyfer cyfranogi'n effeithiol ac ystyrlon. Buaswn hefyd yn eich cynghori i edrych ar waith Rhwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru, i'ch helpu i adnabod a denu arweinwyr cymunedol.

Ni fydd yn syndod i chi nodi fod Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus eraill hefyd yn ystyried gosod amcanion sy'n ymwneud â denu, datblygu / cynnal rhwydweithiau cymdeithasol cryf, meithrin perthyn a rhoi ffurf ar wasanaethau. Yn enwedig, efallai y byddech chi'n dymuno rhannu syniadau â PSB Cwm Taf; PSB Sir Gaerfyrddin, PSB Casnewydd a PSB Powys, sydd wedi darparu amcanion drafft tebyg ataf.

**Gobeithio eich bod wedi gweld budd yn y cyngor hwn wrth i chi symud tuag at gyhoeddi cynllun llesiant ar gyfer ymgynghori ffurfiol. Cysylltwch â'm tîm os gwelwch yn dda os oes angen unrhyw fanylion cyswllt pellach ar gyfer unrhyw rai o'r sefydliadau neu'r adroddiadau a grybwyllwyd yn y llythyr hwn.**

Rwyf innau hefyd wrthi'n dysgu'r ffordd orau i gynghori, cefnogi a monitro sut mae cyrff cyhoeddus yn ceisio gweithredu'r pum dull o weithio a gwneud yn fawr o'u cyfraniad i'r saith nod llesiant, felly byddwn yn croesawu unrhyw adborth oddi wrthych chi, swyddogion cefnogi a'r Pwyllgor Craffu PSB ar y dull yr ydw i wedi dewis ymwneud â'r ddyletswydd statudol a'r cyngor a roddais.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich cynllun llesiant drafft, a chofiwch gadw mewn cyswllt â mi a'm tîm os gwelwch yn dda

Yr eiddoch yn gywir,

Sophie Howe

**Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru**
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd, CF10 1AT
*cystylltwchani@cenedlaethaurdyfodol.cymru*
cenedlaethaurdyfodol.cymru

**Future Generations Commissioner for Wales**
Market Chambers, 5-7 St Mary Street
Cardiff, CF10 1AT
*contactus@futuregenerations.wales*
futuregenerations.wales